OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 374 (Cy.34)

# CYFRAITH GYFANSODDIADOL DATGANOLI, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *13 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *14 Chwefror 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan baragraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 a daw i rym ar 14 Chwefror 2007.

### Dyddiad Cyfarfod Cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei Gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**2.** Dyddiad y cyfarfod cyntaf o'r Cynulliad sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ôl etholiad 2007 fydd 9 Mai 2007.

(**1**) 2006 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
13 Chwefror 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir o dan baragraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), yn darparu mai'r dyddiad penodedig ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad sydd wedi ei gyfansoddi yn ôl y Ddeddf honno yw 9 Mai 2007.